LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cyfarfod:	Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru Cyfarfod Agored
Dyddiad:	Dydd Gwener, 10 Mai rhwng 10.00 - 13.00
Lleoliad:	Ystafell y Cyngor ar ar-lein

Yn bresennol:

Aelodau'r Bwrdd:	Ashok Ahir (Llywydd a Chadeirydd) Andrew Evans (Is Lywydd) Gronw Percy (Trysorydd) Janet Wademan Anwen Jones David Hay Susan Davies Quentin Howard Andrew Cusworth John Allen
Tîm Gweithredol:	Rhodri Llwyd Morgan, Prif Weithredwr Rhian Gibson, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau Owain Roberts, Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol Emyr Evans, Cyfarwyddwr Cyllid (dros dro)
Hefyd yn bresennol:	Annwen Isaac, Rheolwr Adnoddau Dynol Manon Maragakis, Llywodraeth Cymru Mary Ellis, Llywodraeth Cymru Nia Dafydd, Cyngor Partneriaeth Ifeanyi Charles Okafor, rhaglen gysgodi'r Uned Apwyntiadau Cyhoeddus
Cofnodion:	Carol Edwards (Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol)
Ymddiheuriadau:	Elaine Treharne, Lee Yale-Helms, Hannah Lindsay, Lydia Rumsey

1. Materion Cyffredinol

1.1 Croeso gan y Cadeirydd a sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig i Rhodri Llwyd Morgan i'w gyfarfod llawn cyntaf fel Prif Weithredwr.

Croesawyd Ifeanyi Charles Okafor oedd yn mynychu'r cyfarfod fel rhan o raglen gysgodi Uned Apwyntiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mi fydd Charles hefyd yn ymuno â chyfarfodydd pwyllgorau dros y tri mis nesaf, ac yn mynychu cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Lansiwyd arddangosfa *Delfryd a Diwylliant* y noson flaenorol. Roedd yn esiampl wych o bartneriaethu, yn ogystal â chyfle i'r Llyfrgell arddangos ei thrysorau ei hun. Mae'r gwaith dehongli yn arbennig o dda, yn dangos rôl y Llyfrgell yn gwarchod trysorau adeg yr Ail Ryfel Byd, a ffilm yn dangos taith y darlun *The Stonemason's Yard* i chwareli llechi Manod yng Ngogledd Cymru, ble cafodd ei ddiogelu. Yn ogystal â'r arddangosfa arbennig, roedd y cydweithio rhwng y timoedd arddangosfeydd, diogelwch a chlanhau, a'r tîm ymgysylltu a hyrwyddo i'w ganmol.

Anogodd y Llywydd yr Ymddiriedolwyr i ymweld â'r arddangosfa pan fyddant yn Aberystwyth ar gyfer cyfarfod y Bwrdd mis Gorffennaf.

1.2 Datgan buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda

Nid oedd unrhyw ddatgan buddiannau yn berthnasol i'r eitemau ar yr agenda.

1.3 Cofnodion cyfarfod agored 22 Mawrth 2024 a thrafod materion yn codi

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd, yn amodol ar gywiro'r canlynol ar dudalen 3;

£1,455 i ddarllen £1,455k a *Culture Strategy* yn lle *Cultural Strategy* yn y fersiwn Saesneg.

Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru – mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad ydynt yn bwriadu newid cynnwys y llythyr, ond i leihau'r pwysau ar y Llyfrgell, bydd y gofynion adrodd yn llai.

Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth Cymru - disgwylir i Lywodraeth Cymru lansio'r ymgynghoriad ar y ddogfen ar 23 Mai a bydd cyfle i'r Llyfrgell fwydo mewn iddo; bydd Manon Maragakis yn anfon mwy o fanylion ynglŷn â'r lansiad pan maent ar gael at y Llywydd a'r Prif Weithredwr.

1.4 **Cofnodion cyfarfod caeedig 22 Mawrth 2024**

Gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynglŷn â chynnwys y cofnodion caeedig at y Llywydd a Chlerc y Bwrdd.

Adran 2
2.1 Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad cyntaf ers iddo gael ei benodi i'r swydd, gan amlygu'r meysydd canlynol i sylw'r Ymddiriedolwyr.

- Mynychodd gwrs ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu cyrff a noddir ar ei ail ddiwrnod yn y swydd, i gynefino gyda'i gyfrifoldebau am stiwardiaeth ariannol y Llyfrgell
- Cynhaliwyd cyfarfodydd staff ar 10 Ebrill ble bu cyfle i staff ofyn cwestiynau. Mae'r cyfnod presennol yn un bregus gyda chynifer o staff yn gadael y sefydliad, a phryder ynglŷn â'r cyfnod nesaf. Bwriedir cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd o hyn allan.

- Mae nifer o gyfweliadau gyda'r wasg wedi eu cynnal sy'n gyfle i leisio'r heriau' sy'n wynebu'r Llyfrgell
- Mewn cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 7 Mai, trafodwyd y sefyllfa ynglyn â tho'r Llyfrgell, oedd wedi profi difrod yn ystod storm ym mis Ebrill. Gyda chymorth Manon Maragakis, bydd y Llyfrgell yn cyflwyno cais, trwy wahoddiad, i Lywodraeth Cymru ar gyfer atgyweirio'r to a phecyn gwaith datgarboneiddio fydd yn gweld gosod paneli solar a sustem wresogi ffynhonnell ddaearol ar gyfer diogelu'r Llyfrgell at y dyfodol.
- Mae gwaith wedi cychwyn ar uwchraddio maes parcio'r Llyfrgell, fydd hefyd yn cynnwys elfen o'r gwaith datgarboneiddio
- Parhau i aros am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu'r Hafod (Atriwm)
- Mynychwyd derbyniad i ddathlu 25 mlynedd ers etholiad cyntaf Senedd Cymru, ble dangoswyd ffilm wedi ei darparu gan y Llyfrgell yn dangos prif ddigwyddiadau yn hanes y Senedd; roedd arddangosfa wedi ei pharatoi gan yr Archif Wleidyddol, a bu cyfle i rwydweithio gydag aelodau'r Senedd yn ystod y noson
- Trefniadau ar y gweill gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu i'r Ysgrifennydd Cabinet ymweld â'r Llyfrgell yn ystod mis Gorffennaf
- Mae'r Gwasanaeth Addysg yn gwneud gwaith blaenllaw gydag ysgolion yng Nghymru. Mae disgyblion yn creu ffilmiau sy'n cael eu darlledu ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, profiadau all arwain at swyddi yn y diwylliant teledu yn y dyfodol.

Adran 3 Materion Strategol

3.1 Asesiad Effaith a Chynllun Olyniaeth

Cyflwynwyd adroddiad yn dangos effaith y cynllun ymadael gwirfoddol ar feysydd gwaith y Llyfrgell. O ran y sefyllfa bresennol mae trefniadau ac addasiadau tymor byr wedi eu gwneud sy'n ystyried lles y gweithlu a pharhad busnes, ond rhaid cydnabod na fydd modd parhau i weithredu a chyflawni pob dim fel yn y gorffennol.

Mi fydd yr arian lliniaru'n cael ei ddefnyddio i gynllunio ymlaen mewn rhai meysydd, ac mae'r dyddiadau gadael estynedig hefyd yn lliniaru peth o effaith yr ymadawiadau mewn rhai meysydd. Bydd gweithdai'n cael eu cynnal gyda'r staff ar y rhaglen newid a'r cynllun strategol, a chroesawir mewnbwn gan aelodau'r Bwrdd i'r rhain hefyd.

Nid yw'r ymadawiadau'n debygol o effeithio'r polisi gweithio o adref, ond mae'n bwysig cydbwyso'r hyblygrwydd yma gyda'r effaith ar lesiant staff nad sy'n cael cyswllt â chydweithwyr eraill ond ar y sgrin.

3.2 Rhaglen Hyfforddiant

Diolchodd y Llywydd i'r aelodau am eu hawgrymiadau am feysydd hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn. Anogwyd yr holl aelodau i ddilyn pecyn cymorth diogeled seiber yr NCSC sy'n rhad ac am ddim; mae hyn yn amserol yn dilyn y digwyddiad yn y Llyfrgell Brydeinig, ac yn gwrs mae'r Pennaeth Isadeiledd Digidol wedi ei dynnu i sylw'r aelodau dros y flwyddyn ddiwethaf. Ategwyd pwysigrwydd y cwrs yma hefyd gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Mae cost ynghlwm wrth y 2 gwrs sy'n cael eu rhedeg gan yr NCVO, ond os oes diddordeb gan unrhyw un i'w dilyn, yna dylid cysylltu gyda'r Llywydd a'r Clerc i wneud trefniadau.

Mae'r cwrs ar gyfer pwyllgorau archwilio, sy'n cael ei ddarparu gan y Civil Service College, yn un sydd wedi ei ddefnyddio yn y gorffennol gan y Llyfrgell, ac roedd canmol iddo. Bydd y Clerc yn gofyn am gostau'r cwrs yma ac yn adrodd yn ôl wrth y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Gofynnodd y Llywydd i'r aelodau anfon awgrymiadau am gyflwyniadau/pynciau trafod ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf iddo cyn gynted â phosib.

3.3 Hwb Hanes Teulu – papur rhagarweiniol

Mae'r Llyfrgell yn ymdrechu i godi ei phroffil yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, ac i wneud hyn, mae angen iddi edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio, sy'n cynnig cyfleoedd arloesi a phartneriaeth. Mae hel achau yn faes poblogaidd iawn ei apêl, yn enwedig dramor, ac felly mae'r Llyfrgell yn archwilio'r syniad o greu Canolfan Rhagoriaeth Hanes Teulu yn y Llyfrgell.

Os yw'r Bwrdd yn cytuno gyda photensial y prosiect ac yn cefnogi parhau i archwilio a datblygu'r cynllun i greu'r ganolfan, y cam nesaf fyddai cael arbenigwr datblygu busnes i gefnogi'r Llyfrgell i ddatblygu cynllun busnes a fyddai'n dadansoddi risgiau a chyfleoedd; os penderfynir datblygu prosiect peilot, yna byddai cais yn debygol o gael ei wneud am fuddsoddiad o'r cronfeydd preifat.

Cytunodd y Bwrdd ar botensial y prosiect, ac i fwrw ymlaen i wneud gwaith archwilio pellach.

3.4 Cynllun Rheoli Gwrthdaro – Cynllun Pensiwn

Mae Willis Towers Watson (WTW) yn darparu gwasanaethau actiwarïaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgell mewn perthynas â'r cynllun pensiwn. Mae'r ffaith bod WTW yn cynghori'r Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgell yn medru arwain at wrthdaro buddiannau neu wrthdaro canfyddedig ar gyfer WTW. Mae angen rheoli'r gwrthdaro yma er lles y partïon i gyd.

Pwrpas y ddogfen sydd wedi ei chyflwyno gan WTW yw gosod allan y bwriad a'r egwyddorion ynglŷn ag unrhyw wrthdaro buddiannau a sut y bydd WTW yn delio gyda'r rhain. Roedd WTW am i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol a chydnabod y sefyllfa.

3.5 Adroddiad Blynyddol Archwilio, Risg a Sicrwydd

Cyflwynodd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2023/24.

Cydnabu bod 2023/24 wedi bod yn flwyddyn heriol am nifer o resymau a bod angen mynd i'r afael â nifer o faterion.

Diolchodd i'r Prif Weithredwr blaenorol, a'r un presennol, am ysgwyddo cyfrifoldebau tu hwnt i'w rhai arferol oherwydd absenoldebau staff allweddol yn ystod y flwyddyn. Diolchodd hefyd i'w chyd

aelodau ar y pwyllgor, aelodau annibynnol, staff a'r Clerc am eu gwaith, ac yn arbennig i Emyr Evans, Cyfarwyddwr Cyllid dros-dro, am ei gefnogaeth i'r pwyllgor yn ystod ei gyfnod yn y Llyfrgell.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr aelodau ar yr adroddiad, a diolchodd y Llywydd i'r cadeirydd am gadeirio'r pwyllgor mewn cyfnod anodd o newid a thrawsnewid i'r sefydliad.

Adran 4 Materion Corfforaethol
4.1 Adroddiadau Ariannol

4.1.1 Cyllideb Ddrafft 2024/25

Trafodwyd y gyllideb mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar 1 Mai, a cheir dadansoddiad manwl o'r incwm a'r gwariant ac esboniadau am y ffigyrau yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw, sydd wedi eu rhannu gyda'r aelodau.

Mae cyllid prosiect yr Archif Ddarlledu wedi ei drafod gyda rheolwyr y project a Swyddog Monitro'r HLF, ac mi fydd craffu manylach ar y gyllideb yn digwydd o hyn allan.

Cytunwyd fod agen ffocysu ar gynyddu incwm masnachol yn flwyddyn ariannol yma, yn ogystal â chynyddu incwm codi arian.

Mae rhannu costau craidd a chostau phrosiect ar wahân a darparu'r wybodaeth am gyllidebau adrannol yn rhoi mwy o eglurder i'r aelodau o ran incwm a gwariant. Nododd y Trysorydd fod y gyllideb wedi ei chraffu'n fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a'i fod yn hapus gyda'r hyn sy'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

4.1.2 Cyfrifon Rheoli Mawrth 2024

Gorffennwyd y flwyddyn ariannol 2023/24 gyda diffyg o £736k – yn wreiddiol, roedd y ffigwr yn ddwywaith gymaint.

Incwm a gwariant

- Derbyniwyd grantiau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth - £400k ar gyfer yr Archif Ddarlledu a £248k ar gyfer gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar yr adeilad
- Incwm prosiect £785k uwch nag a ragwelwyd yn erbyn y gyllideb wreiddiol - £467k addasiad o arian i sail croniad, a £318k o gyllid prosiect ychwanegol
- Incwm masnachol £90k o flaen y gyllideb, yn deillio'n bennaf o Pendinas

Dyraniadau Cronfeydd Preifat

Rhagwelwyd y byddai'n rhaid defnyddio'r ymrwymiadau o'r cronfeydd preifat i gyd yn ystod 2023/24, ond oherwydd bod y diffyg ar ddiwedd y flwyddyn yn llai, nid oedd angen defnyddio'r cyfan. Y rhesymau am hyn yw;

- Taliad costau byw - defnyddiwyd £190k o'r incwm cytundeb cydweithio i ariannu hwn, felly dim ond £197k oedd angen ei ddefnyddio o'r cronfeydd preifat

- Cyllid yr Archif Ddarlledu - dim ond £145k a ddefnyddiwyd o'r cronfeydd preifat, gan fod cyllid ychwanegol o £400k wedi ei dderbyn ddiwedd mis Mawrth

Gwariant cyfalaf

Mae gorwariant ar gyfalaf o tua £600k yn 2023/24; mae hyn oherwydd cyflwyno grant cytundeb cydweithio 2 flynedd i ariannu datgarboneiddio a capasiti storio. Nid oes modd amseru na gwerthuso'r gwariant yn erbyn y grantiau yma i'r cyfnod dyrannu'r grant. Roedd y costau o ran y 2 brosiect yn uwch na'r grant ar gyfer 2023/24 ond yn cyd-fynd â disgwyliadau cost cyfanswm y prosiectau.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i gefnogi prosiect datblygu'r Hafod (Atriwm) o'r cronfeydd preifat. Mae'r gyllideb wreiddiol ar gyfer y prosiect yma a gyflwynwyd dwy flynedd yn ôl bellach wedi newid oherwydd bod costau wedi codi, ac mae'r gwaith hefyd wedi newid o'r hyn a brisiwyd amdano yn wreiddiol, yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan staff, a chefnogi'r agenda gynaliadwyedd a datgarboneiddio. Bydd angen felly cyflwyno cyllideb wedi ei diweddaru ar gyfer y prosiect yma i'r Bwrdd maes o law.

Diolchwyd i Emyr Evans gan y Llywydd a'r Trysorydd am baratoi cyfrifon sy'n rhoi gorolwg clir i'r Bwrdd o sefyllfa gyllidol y sefydliad.

4.1.3 Ymrwymiadau'r cronfeydd preifat

Cyflwynwyd taenlen i'r Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Cyllid dros-dro yn gosod allan ymrwymiadau'r cronfeydd preifat a symudiadau yn y cronfeydd ar gyfer 2023/24,ac ymrwymiadau i ddod yn ystod 2024/25 - 2029/30.

Mae'r cronfeydd mewn sefyllfa iachus, yn bennaf oherwydd nad oes gymaint wedi ei wario a hefyd oherwydd enillion da ar y buddsoddiadau. Bydd yr arian o werthiant tŷ yn Llundain yn cael ei gynnwys yn y cronfeydd preifat pan fydd wedi ei dderbyn.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid dros-dro i'r Bwrdd nodi bod £1m o'r cronfeydd preifat wedi ei symud i'r gronfa llif arian i sicrhau cyllid digonol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; erbyn hyn, mae'r arian yma wedi cyrraedd y Llyfrgell, ac mae'r £1m wedi ei drosglwyddo i gyfrif arall - cyfrif rheoli arian. Trafodwyd a chytunwyd hyn gyda'r Trysorydd. Cytunwyd fod angen darparu papur i'r Bwrdd sy'n gosod allan yn ffurfiol caniatâd i ddefnyddio arian preifat ar gyfer llif arian.

Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr ddiweddaru'r Bwrdd ym mis Gorffennaf gyda syniadau ar gyfer defnyddio'r cronfeydd preifat.

4.2 Cydymffurfiaeth a Risg

Dim materion i'w hadrodd

Adran 5: Adroddiadau Pwyllgorau

5.1 Cofnodion drafft Archwilio, Risg a Sicrwydd, 18.03.24 a 09.04.24

Cyflwynwyd y cofnodion gan gadeirydd y pwyllgor Janet Wademan, a ofynnodd a oedd cynllun mewn lle i fynd i'r afael ag argymhellion Llythyr Rheoli Archwilio Cymru; rhoddwyd sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Cyllid dros- dros ei fod yn trafod blaenoriaethau gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr aelodau ar gynnwys y cofnodion.

5.2 Cofnodion drafft cyfarfod arbennig Cyllid ac Adnoddau 01.05.24

Wedi eu trafod yn barod yn yr eitem am y gyllideb.

Adran 6: Unrhyw fater arall

Dyma gyfarfod olaf Emyr Evans, Cyfarwyddwr Cyllid dros-dro cyn iddo orffen ei gyfnod yn y Llyfrgell. Diolchwyd iddo am ei waith a'i gyfraniad i'r Llyfrgell dros y 15 mis diwethaf yn arwain yr Adran Gyllid a darparu gwybodaeth gyllidol glir i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

CYFLWYNIAD:

Owain Dafydd, Rheolwr Prosiect Cymunedau Cymru
Cynllun Cymunedau Cymru Gwrth-hiliaeth

Cafwyd cyflwyniad diddorol yn rhoi cefndir y prosiect sy'n cynorthwyo delifro Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru'r Llywodraeth. Cymru yw'r wlad gyntaf i wneud addysgu hanes a phrofiadau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn orfodol yn y cwricwlwm, a nod y prosiect yma yw helpu plant mewn ysgolion ar draws Cymru i groesawu a dathlu ei threftadaeth ddiwylliannol amrywiol trwy weithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol ledled Cymru i adrodd straeon trwy lens y bobl amrywiol sy'n byw yno.

Diolchwyd i Owain am ei gyflwyniad a'i longyfarch am brosiect llwyddiannus, sy'n esiampl wych o ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd amrywiol. Bydd y Llyfrgell yn edrych i ddatblygu hyn ymhellach dros y flwyddyn nesaf.

Anogwyd y Llyfrgell gan un o'r Ymddiriedolwyr i ystyried ymgysylltu gyda *Group for Education in Museums* fyddai â diddordeb yn y prosiect yma.

**** DIWEDD ****

PWYNTIAU I'W GWEITHREDU /MATERION ANGEN SYLW PELLACH			
Gweithred	**Cyfrifoldeb**	**Erbyn**	**Wedi ei gwblhau**
Strategaeth Ddiwylliant LlC -anfon gwybodaeth ynglŷn â lansio'r ymgynghoriad	Manon Maragakis	Pan fydd ar gael	
Ymchwilio i gost cynnal cwrs Civil Service College ar gyfer pwyllgorau archwilio	Clerc	Mor fuan â phosib	Cost wedi ei rannu gyda'r Llywydd, Tîm Gweithredol a chadeirydd AR&S

Aelodau i anfon awgrymiadau am gyflwyniadau/pynciau trafod i'r Llywydd ar gyfer cyfarfod 25 Gorffennaf	Ymddiriedolwyr	Mor fuan â phosib	
Cyllideb datblygu'r Hafod (Atriwm) – cyflwyno cyllideb ddiwygiedig	Mererid Boswell / Mark Stevens	Cyfarfod 26.07.24	Ar yr agenda
Cronfeydd preifat 1. darparu papur i'r Bwrdd yn gosod allan yn ffurfiol caniatâd i ddefnyddio'r cronfeydd preifat ar gyfer llif arian diwedd flwyddyn ariannol 2. darparu syniadau ar gyfer defnydd o'r cronfeydd preifat	Mererid Boswell Prif Weithredwr	Cyfarfod 26.07.24	